O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2024 Rhif 879 (Cy. 142)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 39 (Y Groes), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

Gwnaed	*28 Awst 2024*
Yn dod i rym	*2 Medi 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 39 (Y Groes), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Medi 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 2 Medi

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r llain galed sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd a lôn gyntaf cerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach) hyd at yr arwydd gantri i'r gorllewin o Gyffordd 39 (Y Groes), Castell-nedd Port Talbot.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Awst 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru